Guilfield	£953.43	£1,112.34	£1,271.24	£1,430.15	£1,747.96	£2,065.77	£2,383.58	£2,860.30	£3,337.02
Kerry	£961.51	£1,121.76	£1,282.01	£1,442.26	£1,762.76	£2,083.26	£2,403.77	£2,884.52	£3,365.27
Llanbrynmair	£960.19	£1,120.22	£1,280.25	£1,440.28	£1,760.34	£2,080.40	£2,400.47	£2,880.56	£3,360.65
Llandinam	£963.64	£1,124.25	£1,284.85	£1,445.46	£1,766.67	£2,087.89	£2,409.10	£2,890.92	£3,372.74
Llandrinio and Arddleen	£957.61	£1,117.21	£1,276.81	£1,436.41	£1,755.61	£2,074.81	£2,394.02	£2,872.82	£3,351.62
Llandysilio	£962.34	£1,122.73	£1,283.12	£1,443.51	£1,764.29	£2,085.07	£2,405.85	£2,887.02	£3,368.19
Abermule with Llandyssil	£975.09	£1,137.60	£1,300.12	£1,462.63	£1,787.66	£2,112.69	£2,437.72	£2,925.26	£3,412.80
Llanerfyl	£956.75	£1,116.21	£1,275.67	£1,435.13	£1,754.05	£2,072.97	£2,391.88	£2,870.26	£3,348.64
LLanfair Caereinion	£976.13	£1,138.81	£1,301.50	£1,464.19	£1,789.57	£2,114.94	£2,440.32	£2,928.38	£3,416.44
Llanfechain	£966.87	£1,128.01	£1,289.16	£1,450.30	£1,772.59	£2,094.88	£2,417.17	£2,900.60	£3,384.03
Llanfihangel	£970.57	£1,132.33	£1,294.09	£1,455.85	£1,779.37	£2,102.89	£2,426.42	£2,911.70	£3,396.98
Llanfyllin	£968.97	£1,130.46	£1,291.96	£1,453.45	£1,776.44	£2,099.43	£2,422.42	£2,906.90	£3,391.38
Llangedwyn	£952.45	£1,111.19	£1,269.93	£1,428.67	£1,746.15	£2,063.63	£2,381.12	£2,857.34	£3,333.56
Llangurig	£949.55	£1,107.81	£1,266.07	£1,424.33	£1,740.85	£2,057.37	£2,373.88	£2,848.66	£3,323.44
Llangyniew	£958.12	£1,117.81	£1,277.49	£1,437.18	£1,756.55	£2,075.93	£2,395.30	£2,874.36	£3,353.42
Llangynog	£966.40	£1,127.47	£1,288.53	£1,449.60	£1,771.73	£2,093.87	£2,416.00	£2,899.20	£3,382.40
Llanidloes	£1,016.81	£1,186.28	£1,355.75	£1,525.22	£1,864.16	£2,203.10	£2,542.03	£3,050.44	£3,558.85
Llanidloes Without	£960.52	£1,120.61	£1,280.69	£1,440.78	£1,760.95	£2,081.13	£2,401.30	£2,881.56	£3,361.82

**COMMUNITY/CYMUNED****COUNCIL TAX BANDS/TRETH CYNGOR BAND**

	<b>A</b>	<b>B</b>	<b>C</b>	<b>D</b>	<b>E</b>	<b>F</b>	<b>G</b>	<b>H</b>	<b>I</b>
Llanrhaeadr ym Mochnant	£954.77	£1,113.89	£1,273.02	£1,432.15	£1,750.41	£2,068.66	£2,386.92	£2,864.30	£3,341.68
Llansantffraid	£959.78	£1,119.74	£1,279.71	£1,439.67	£1,759.60	£2,079.52	£2,399.45	£2,879.34	£3,359.23
Llansilin	£947.30	£1,105.18	£1,263.07	£1,420.95	£1,736.72	£2,052.48	£2,368.25	£2,841.90	£3,315.55
Llanwddyn	£983.00	£1,146.83	£1,310.67	£1,474.50	£1,802.17	£2,129.83	£2,457.50	£2,949.00	£3,440.50
Machynlleth	£1,055.71	£1,231.67	£1,407.62	£1,583.57	£1,935.47	£2,287.38	£2,639.28	£3,167.14	£3,695.00
Manafon	£970.41	£1,132.14	£1,293.88	£1,455.61	£1,779.08	£2,102.55	£2,426.02	£2,911.22	£3,396.42
Meifod	£956.35	£1,115.74	£1,275.13	£1,434.52	£1,753.30	£2,072.08	£2,390.87	£2,869.04	£3,347.21
Mochdre with Penstrowed	£960.13	£1,120.15	£1,280.17	£1,440.19	£1,760.23	£2,080.27	£2,400.32	£2,880.38	£3,360.44
Montgomery	£969.31	£1,130.86	£1,292.41	£1,453.96	£1,777.06	£2,100.16	£2,423.27	£2,907.92	£3,392.57
Newtown & Llanllwchaiarn	£1,042.25	£1,215.96	£1,389.67	£1,563.38	£1,910.80	£2,258.22	£2,605.63	£3,126.76	£3,647.89
Pen Y Bont Fawr	£969.51	£1,131.09	£1,292.68	£1,454.26	£1,777.43	£2,100.60	£2,423.77	£2,908.52	£3,393.27
Trefeglwys	£949.49	£1,107.74	£1,265.99	£1,424.24	£1,740.74	£2,057.24	£2,373.73	£2,848.48	£3,323.23
Tregynon	£968.41	£1,129.81	£1,291.21	£1,452.61	£1,775.41	£2,098.21	£2,421.02	£2,905.22	£3,389.42
Trewern	£961.58	£1,121.84	£1,282.11	£1,442.37	£1,762.90	£2,083.42	£2,403.95	£2,884.74	£3,365.53
Welshpool	£1,047.52	£1,222.11	£1,396.69	£1,571.28	£1,920.45	£2,269.63	£2,618.80	£3,142.56	£3,666.32

# RADNORSHIRE/SIR FAESYFED

## COMMUNITY/CYMUNED

## COUNCIL TAX BANDS/TRETH CYNGOR BAND

	<b>A</b>	<b>B</b>	<b>C</b>	<b>D</b>	<b>E</b>	<b>F</b>	<b>G</b>	<b>H</b>	<b>I</b>
Abbeycwmhir	£960.81	£1,120.95	£1,281.08	£1,441.22	£1,761.49	£2,081.76	£2,402.03	£2,882.44	£3,362.85
Aberedw	£944.47	£1,101.88	£1,259.29	£1,416.70	£1,731.52	£2,046.34	£2,361.17	£2,833.40	£3,305.63
Beguildy	£958.51	£1,118.26	£1,278.01	£1,437.76	£1,757.26	£2,076.76	£2,396.27	£2,875.52	£3,354.77
Clyro	£950.03	£1,108.37	£1,266.71	£1,425.05	£1,741.73	£2,058.41	£2,375.08	£2,850.10	£3,325.12
Disserth & Trecoed	£956.48	£1,115.89	£1,275.31	£1,434.72	£1,753.55	£2,072.37	£2,391.20	£2,869.44	£3,347.68
Gladestry	£951.41	£1,109.98	£1,268.55	£1,427.12	£1,744.26	£2,061.40	£2,378.53	£2,854.24	£3,329.95
Glasbury	£954.33	£1,113.39	£1,272.44	£1,431.50	£1,749.61	£2,067.72	£2,385.83	£2,863.00	£3,340.17
Glascwm	£953.61	£1,112.55	£1,271.48	£1,430.42	£1,748.29	£2,066.16	£2,384.03	£2,860.84	£3,337.65
Knighton	£978.03	£1,141.04	£1,304.04	£1,467.05	£1,793.06	£2,119.07	£2,445.08	£2,934.10	£3,423.12
Llanbadarn Fawr	£955.31	£1,114.53	£1,273.75	£1,432.97	£1,751.41	£2,069.85	£2,388.28	£2,865.94	£3,343.60
Llanbadarn Fynydd	£961.17	£1,121.37	£1,281.56	£1,441.76	£1,762.15	£2,082.54	£2,402.93	£2,883.52	£3,364.11
Llanbister	£957.16	£1,116.69	£1,276.21	£1,435.74	£1,754.79	£2,073.85	£2,392.90	£2,871.48	£3,350.06
Llanddewi Ystradenny	£948.77	£1,106.90	£1,265.03	£1,423.16	£1,739.42	£2,055.68	£2,371.93	£2,846.32	£3,320.71
Llandrindod Wells	£987.36	£1,151.92	£1,316.48	£1,481.04	£1,810.16	£2,139.28	£2,468.40	£2,962.08	£3,455.76
Llanelwedd	£951.11	£1,109.62	£1,268.14	£1,426.66	£1,743.70	£2,060.73	£2,377.77	£2,853.32	£3,328.87
Llanfihangel Rhydithon	£959.63	£1,119.57	£1,279.51	£1,439.45	£1,759.33	£2,079.21	£2,399.08	£2,878.90	£3,358.72
Llangunllo	£952.15	£1,110.85	£1,269.54	£1,428.23	£1,745.61	£2,063.00	£2,380.38	£2,856.46	£3,332.54
Llanyre	£955.84	£1,115.15	£1,274.45	£1,433.76	£1,752.37	£2,070.99	£2,389.60	£2,867.52	£3,345.44
Nantmel	£959.76	£1,119.72	£1,279.68	£1,439.64	£1,759.56	£2,079.48	£2,399.40	£2,879.28	£3,359.16
New Radnor	£961.66	£1,121.94	£1,282.21	£1,442.49	£1,763.04	£2,083.60	£2,404.15	£2,884.98	£3,365.81
Old Radnor	£955.91	£1,115.22	£1,274.54	£1,433.86	£1,752.50	£2,071.13	£2,389.77	£2,867.72	£3,345.67
Painscastle	£946.35	£1,104.08	£1,261.80	£1,419.53	£1,734.98	£2,050.43	£2,365.88	£2,839.06	£3,312.24
Penybont & Llandegley	£959.32	£1,119.21	£1,279.09	£1,438.98	£1,758.75	£2,078.53	£2,398.30	£2,877.96	£3,357.62
Presteigne & Norton	£977.87	£1,140.85	£1,303.83	£1,466.81	£1,792.77	£2,118.73	£2,444.68	£2,933.62	£3,422.56
Rhayader	£970.81	£1,132.62	£1,294.42	£1,456.22	£1,779.82	£2,103.43	£2,427.03	£2,912.44	£3,397.85
St Harmon	£963.81	£1,124.45	£1,285.08	£1,445.72	£1,766.99	£2,088.26	£2,409.53	£2,891.44	£3,373.35
Whitton	£949.84	£1,108.15	£1,266.45	£1,424.76	£1,741.37	£2,057.99	£2,374.60	£2,849.52	£3,324.44

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Deilydd Portffolio Cyllid ac fe'u heiliwyd gan yr Arweinydd ac, o 44 pleidlais i 20 gydag 1 yn ymatal,

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<p>1. <b>BOD y cyngor yn derbyn y symiau a nodir ym mharagraff 2.1 uchod ar gyfer blwyddyn 2018/2019 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992</b></p> <p>2. <b>BOD y Cyngor yn unol ag Adran 30 (2) o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau a nodir ym mharagraff 2.3 fel y symiau Treth Gyngor ar gyfer blwyddyn 2018/2019 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a welir isod.</b></p>	<p><b>Er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol i'r Cyngor bennu swm y Dreth Gyngor.</b></p>

<b>7.</b>	<b>DATGANIAD BLYNYDDOL AR Y DDARPARIAETH ISAFSWM REFENIW AR GYFER 2018/19</b>
-----------	---

Bu'r Cyngor yn ystyried y Datganiad Blynyddol ar y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2018/19. Cynigiwyd yr argymhellion gan y Deilydd Portffolio Cyllid ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Martin Weale.

Argymhelliad 1: o 51 pleidlais i 8 gyda 2 yn ymatal

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<p><b>a) Defnyddio cyfrifiad llinell syth 2% ar gyfer yr MRP o safbwynt Bentyca â Chymorth.</b></p>	<p><b>Gofyn Statudol</b></p>

Argymhelliad 2: o 42 pleidlais i 16 gyda 4 yn ymatal

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<p><b>b) Defnyddio'r Dull Blwydd-dal Oes Asedau i gyfrifo'r MRP o safbwynt Bentyca (Darbodus) Digymorth.</b></p>	<p><b>Gofyn Statudol</b></p>

Argymhelliad 3: o 44 pleidlais i 15 gyda 3 yn ymatal

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>

<b>c) Defnyddio balans gostyngol o 2% ar gyfer yr MRP o safbwynt y ffigur Hanesyddol a Dyled y Setliad ar gyfer yr HRA</b>	<b>Gofyn Statudol</b>
--	-----------------------

Argymhelliad 4: o 42 pleidlais i 15 gyda 3 yn ymatal

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<b>d) Defnyddio Oes Asedau ar gyfer cyfrifo'r MRP o safbwynt Benthycia Darbodus ar gyfer yr HRA</b>	<b>Gofyn Statudol</b>

Argymhelliad 5: o 42 pleidlais i 11 gyda 8 yn ymatal

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<b>e) Cymryd mantais o'r arweiniad sy'n caniatáu i'r MRP gael ei ohirio ar gyfer asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.</b>	<b>Paru cost yr MRP gyda faint y mae gwasanaeth yn defnyddio ased.</b>

## **8. TROSLWYDDIADAU CYFALAF O SAFBWyNT Y CYFRIF REFENIW TAI**

Bu'r Cyngor yn ystyried treiglo ymlaen gyllidebau cyfalaf yn y Cyfrif Refeniw tai. Esboniodd y Pennaeth tai pam bod nifer o brosiectau wedi cael eu hoedi gan ddweud y byddai'r gwaith a oedd wedi'i oedi yn cael ei wneud yn ystod 9 mis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd. Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Deilydd Portffolio Cyllid ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Sir James Evans ac, o 62 pleidlais i 0

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<b>Cymeradwyo'r trosglwyddiadau canlynol i dreiglo ymlaen gyllidebau cyfalaf i flwyddyn ariannol 2018/19;</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• £1.29m Eiddo Annhraddodiadol</li> <li>• £4.33m Safon Ansawdd Tai Cymru</li> <li>• £0.720m Toi y De</li> <li>• £1.3m Cyllid Adeiladau Newydd fel y nodir yn yr adroddiad hwn.</li> </ul>	<b>Er mwyn sicrhau y gwneir y trosglwyddiadau cywir sy'n adlewyrchu'r gwariant cyfalaf amcanestynedig.</b>

## **9. DATGANIAD POLISI CYFLOGAU**

Fe wnaeth pob Swyddog heblaw'r Arweinydd Proffesiynol – Gwasanaethau Cyflogaeth, y Swyddog Cymorth TG a'r cyfieithydd adael y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Fe wnaeth y Cynghorwyr Sir DE Davies, G Morgan a TJ Van-Rees adael y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried ar ôl datgan buddiannau personol rhagfarnus yn yr eitem hon.

Cymerodd yr Is-gadeirydd y Gadair ar gyfer yr eitem hon.

Bu'r Cyngor yn ystyried y Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer 2018/19.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance welliant, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Sarah Williams:

“Mae'r Cyngor hwn yn ymrwmo i dalu Cyfradd Sylfaenol y Cyflog Byw o fis Ebrill 2019 ymlaen a gweithredu unrhyw gynnydd blynyddol a gyhoeddir bob mis Tachwedd erbyn y mis Mai dilynol.

At hynny, mae'r Cyngor yn ymrwmo i geisio achrediad ffurfiol fel cyflogwr Cyflog Byw o fis Ebrill 2019 ymlaen.”

Rhodddwyd y gwelliant i bleidlais a cholodd o 28 pleidlais i 32.

Pleidleisiodd y Cyngor ar yr argymhelliad yn yr adroddiad ac o 41 pleidlais i 17

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<b>Cymeradwyo datganiad y polisi cyflogau. (copi'n cael ei ffeilio gyda'r cofnodion llofnodedig).</b>	<b>Sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag Adran 38 (1) o'r Ddeddf Lleoliaeth 2011.</b>

Daeth yr aelodau a'r swyddogion a oedd wedi datgan buddiant yn ôl i'r cyfarfod. Dychwelodd y Cynghorydd Sir Dai Davies i'r Gadair.

## **10. TALIADAU I AELODAU CYFETHOLEDIG**

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhelliad i ganiatáu i'r uchafswm dyddiau y gellir talu i'r aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio amdanynt fynd dros yr uchafswm 25 diwrnod a bennwyd yn flaenorol gan y Cyngor. Yn ogystal ag yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio, roedd yr aelod annibynnol hefyd yn aelod o nifer o weithgorau. Cynigiodd y Cynghorydd Sir Stephen Hayes welliant ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander i'r adolygiad arfaethedig o rôl a chyfrifoldebau'r aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio gael ei ehangu i gynnwys pob aelod annibynnol ac fe'i derbyniwyd o 45 pleidlais i 9. Derbyniwyd y prif gynnig o 48 pleidlais i 6.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<b>(i) Y gellir codi'r uchafswm o 25 diwrnod y gellir talu Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio amdanynt, o'r Cyfarfod Blynyddol</b>	<b>I awdurdodi eithriad i'r uchafswm o 25 diwrnod y gellir talu Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio amdanynt yn</b>

<p>yn 2017 tan ddiwedd Ebrill, 2018 ar gyfer y flwyddyn Gyngor hon yn unig.</p> <p>(ii) bod yr uchafswm o 25 diwrnod y gellir talu Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio amdanynt yn 2018 yn aros ar 25 diwrnod.</p> <p>(iii) bod adolygiad o rôl a chyfrifoldebau'r Aelod Annibynnol yn cael ei gynnal i gynnwys ystyried adnoddau Aelod ychwanegol.</p> <p>(iv) os oes gofyn amrywio'r taliadau i Aelodau Annibynnol, Lleyg a Chyfetholedig o'r Cyngor, fod y broses o bennu'r cyfryw daliadau'n cael ei dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 cyn belled ag y gellir cynnwys y gost gyffredinol yng nghyllideb y Cyngor.</p>	<p>2017-18.</p>
--	-----------------

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Sir Phyl Davies am 12.23.

Fe wnaeth y Cynghorwyr Sir Graham Breeze, Linda Corfield, Les George, Iain McIntosh, Gareth Pugh adael y cyfarfod am 12.26.

11.	<b>ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU ETHOLAETHOL – CYNIGION DRAFFT-SIR POWYS</b>
-----	---

Derbyniodd y Cyngor fanylion cynigion y Comisiwn Ffiniau i leihau nifer y Cynghorwyr ym Mhowys o 73 i 68 a chyflwyno nifer o wardiau aml-aelod. Roedd gan y Cyngor tan 29 Mai i wneud sylw ar y cynigion. Fe wnaeth y Cynghorydd Sir James Evans, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees, gynnig gwelliant i'r argymhelliad yn yr adroddiad i drefnu seminar i'r aelodau i roi cyfle i'r aelodau drafod y cynigion, ac fe'i derbyniwyd o 30 pleidlais i 19, a'r prif gynnig o 28 pleidlais i 17 gydag 1 yn ymatal.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad</b>
Trefnu seminar i'r aelodau.	Er mwyn rhoi i'r aelodau'r cyfle i drafod cynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Powys.

Gadawodd y Cynghorydd Sir Roger Williams am 12.36.  
 Gadawodd y Cynghorydd Sir Jon Williams am 12.38.  
 Gadawodd y Cynghorydd Sir Karen Laurie-Parry am 12.40.  
 Gadawodd y Cynghorydd Sir E Michael Jones am 12.46.

**12. DATGANIAD RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19**

Bu'r Cyngor yn ystyried Datganiad y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Datganiad Buddsoddi Blynyddol ar gyfer 2018/19. Fe'i cynigiwyd gan y Deilydd Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir James Evans ac o 47 pleidlais i 0

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<b>Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol</b>	<b>Gofyn Statudol</b>

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Sir Kathryn Silk am 12.49.

**13. HYSBYSIAD O GYNNIG - DEFNYDDIO PLASTIGAU**

Bu'r Cyngor yn trafod yr hysbysiad o gynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Emily Durrant ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies:

"Mae erchyllterau ein caethiwed i blastig yn awr yn hysbys i bawb. Mae gan blastig le pwysig yn ein datblygiad technolegol ac mae, mewn sawl ffordd, yn gynnyrch dyfeisgar a chwyldroadol. Er hynny, mae'n amser cael chwyldro plastig arall. Mae'n amser cefnu ar blastig a defnyddir unwaith. Pan gefais fy ethol i'r Cyngor ym mis Mai, fe'm dychrynwyd i weld yr holl gwpanau plastig tafladwy a'r cwpanau cyfansawdd tafladwy a gaiff eu defnyddio gan Aelodau, staff ac ymwelwyr bob dydd. Mae'r ymateb i'r ymgyrch diweddar 'Powys Ddi-blastig' yn dangos y byddai'r trigolion yn debygol o fod yr un mor siomedig.

A wnaiff yr Aelodau ddangos arweinyddiaeth drwy ofyn i'r Cyngor;

- A) Hyrwyddo Powys fel sir sy'n gweithredu'n flaenllaw i leihau plastig
- B) Datblygu strategaeth:
  - 1. I annog staff a thrigolion i:
    - a. Gario poteli dŵr y gellir eu hail-lenwi ac, yn yr hirdymor, ystyried gosod ffynnon ddŵr yng nghanol trefi lle gellir eu hail-lenwi.
    - b. Cario cwpanau coffi y gellir eu hail-ddefnyddio a gwrthod cwpanau coffi tafladwy pan gynigir y rhain iddynt (er enghraifft, mae codi ffi o 5c am gwpanau coffi tafladwy mewn adeiladau sydd dan ofal y cyngor yn un syniad)
    - c. Osgoi cynhyrchion sydd â micro-gleiniau ynddynt a dim ond fflysio papur i lawr y toiled. Byddai peidio â fflysio weips na ffyn cotwm na lensys cyffwrdd tafladwy i lawr y toiled yn lleihau plastig yn y cefnforoedd ac yn helpu'r system garthffosiaeth.
  - 2. Annog unedau gwerthu bwyd a diod ar draws y sir i:
    - a. Gynnig dewis bioddiraddadwy a hysbysebu eu parodrwydd i lenwi cwpanau y mae pobl yn eu cario gyda nhw



b. Defnyddio gwellt papur nid plastig.”

Torrodd y Cyngor am 13.02 tan 13.51.

Cynghorydd Sir D E Davies (Cadeirydd )

Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, J Charlton, K W Curry, A W Davies, B Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, M R Harris, S M Hayes, A Jenner, D R Jones, E Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, MC Mackenzie, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, N Morrison, R Powell, GD Price, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D A Thomas, R G Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J M Williams, ac S L Williams

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Jackie Charlton y cynnig canlynol, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Maureen Mackenzie gan ychwanegu argymhelliad ychwanegol.

C) Bod yr Awdurdod hwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo Cynllun Dychwelyd Poteli Cenedlaethol yn ysgolion ac adeiladau Powys i leihau lefel y gwastraff a lleihau lefel y sbwriel a welwn ar draws ein systemau ffyrdd ym Mhowys.

Gadawodd y Cynghorydd Sir James Evans am 13.59.

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir Amanda Jenner, wedi'i heilio gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts, gynnig gwelliant pellach:

C) Bod yr Awdurdod hwn yn edrych i mewn i sut y gall gefnogi a hyrwyddo Cynllun Dychwelyd Poteli Cenedlaethol yn ysgolion ac adeiladau Powys i leihau lefel y gwastraff a lleihau lefel y sbwriel a welwn ar draws ein systemau ffyrdd ym Mhowys.

Derbyniwyd y cynnig hwn o 34 pleidlais i 1 gyda 3 yn ymatal gan ddod yn brif gynnig. O 35 pleidlais i 0 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor**

**A) Yn hyrwyddo Powys fel sir sy'n gweithredu'n flaenllaw i leihau plastig**

**B) Yn datblygu strategaeth:**

**1. I annog staff a thrigolion i:**

- a. **Gario poteli dŵr y gellir eu hail-lenwi ac, yn yr hirdymor, ystyried gosod ffynnon ddŵr yng nghanol trefi lle gellir eu hail-lenwi.**
- b. **Cario cwpanau coffi y gellir eu hail-ddefnyddio a gwrthod cwpanau coffi tafladwy pan gynigir y rhain iddynt (er enghraifft, mae codi ffi o 5c am gwpanau**

coffi tafladwy mewn adeiladau sydd dan ofal y cyngor yn un syniad)

- c. Osgoi cynhyrchion sydd â micro-gleiniau ynddynt a dim ond fflysio papur i lawr y toiled. Byddai peidio â fflysio weips na ffyn cotwm na lensys cyffwrdd tafladwy i lawr y toiled yn lleihau plastig yn y cefnforoedd ac yn helpu'r system garthffosiaeth.
2. Annog unedau gwerthu bwyd a diod ar draws y sir i:
    - a. Gynnig dewis bioddiraddadwy a hysbysebu eu parodrwydd i lenwi cwpanau y mae pobl yn eu cario gyda nhw
    - b. Defnyddio gwellt papur nid plastig.

**C) Bod yr Awdurdod hwn yn edrych i mewn i sut y gall gefnogi a hyrwyddo Cynllun Dychwelyd Poteli Cenedlaethol yn ysgolion ac adeiladau Powys i leihau lefel y gwastraff a lleihau lefel y sbwriel a welwn ar draws ein systemau ffyrdd ym Mhowys.**

<b>14.</b>	<b>CYFLWYNIAD GAN Y PRIF SWYDDOG TÂN</b>
------------	--

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân, Chris Davies, a'r Rheolwr Ardal Iwan Cray, gyflwyniad ar waith Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan gymryd cwestiynau gan yr Aelodau.

Gadawodd y Cynghorydd Sir Jeremy Pugh am 14.11.

Gadawodd y Cynghorydd Sir Beverley Baynham am 14.59.

Gadawodd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe am 15.14.

<b>15.</b>	<b>HYSBYSIAD O GYNNIG – ANNOG MENYWOD I YMGEISIO AM ROLAU MEWN GWLEIDYDDIAETH</b>
------------	---

Bu'r Cyngor yn trafod yr Hysbysiad o Gynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Liam Fitzpatrick ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Amanda Jenner:

“I ddathlu canmlwyddiant ers i fenywod gael yr hawl i bleidleisio, fod y cyngor hwn yn cydnabod cyfraniad anhygoel menywod i wleidyddiaeth ym Mhowys, Cymru a'r Deyrnas Unedig er cyn cof.

Bydd y cyngor hwn yn parhau i annog menywod i ymgeisio am rolau gwleidyddol i'r dyfodol ac yn ymdrechu i'w helpu mewn unrhyw ffordd bosibl.”

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander welliant a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Rachel Powell i ofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd bwysu a mesur ffyrdd o annog menywod a grwpiau eraill, nad oes ganddynt gynrychiolaeth deg, i gyfranogi yn y bywyd dinesig ym Mhowys.

Dyweddodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei fod ef eisoes wedi trefnu cyfarfod gyda swyddogion i edrych ar hyn.

Rhodddwyd y gwelliant i bleidlais ac o 32 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bwysu a mesur ffyrdd o annog menywod a grwpiau eraill, nad oes ganddynt gynrychiolaeth deg, i gyfranogi yn y bywyd dinesig ym Mhowys.**

<b>16.</b>	<b>HYSBYSIAD O GYNNIG – COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS</b>
------------	--

Bu'r Cyngor yn trafod y gwelliant canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies:

“Gyda rhybuddion taer am blismona cymunedol a ‘phlismyn ar y stryd’ yn cael eu cwtdogi i'r byw, dengys ffigurau newydd fod Dyfed-Powys yn gwrthod y tueddiad ac wedi gweld y cynnydd mwyaf yng nghyfanswm y swyddogion a'r PCSOs yn y pum mlynedd diwethaf.

Mae 29 yn rhagor o swyddogion i'w cael yn yr ardal heddlu hon yn awr o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl – cynnydd o 2.6 y cant.

Gyda'r cynnydd mwyaf yng nghyfanswm y swyddogion er 2012, mae Dyfed-Powys yn un o blith tri heddlu yn y DU lle mae niferoedd cyffredinol y swyddogion wedi cynyddu yn dilyn rhybuddion gan brif swyddogion heddlu'r DU fod swyddogion cymunedol dan fygythiad difrifol oherwydd toriadau ariannol.

Mae nifer y swyddogion yn y gymdogaeth a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn Nyfed-Powys hefyd wedi codi er 2012, gyda 31 yn rhagor o swyddogion lleol yn cerdded y strydoedd yn 2017 na phum mlynedd yn ôl.

Mae nifer y PCSOs yn Nyfed-Powys wedi codi 45 y cant i 143 yn yr amser hwnnw - un heddlu o blith pedwar yn unig le gwelwyd y niferoedd yn codi.

Penderfynwyd:

Bod y Cyngor yn croesawu ac yn llongyfarch heddlu Dyfed Powys a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Dafydd Llywelyn, ar y newyddion ei fod yn un o blith tri heddlu yn unig yn y DU sydd wedi cynyddu nifer y swyddogion er gwaethaf pwysau ariannol mawr.

Mae nifer y PCSOs yn Nyfed-Powys wedi codi 45 y cant i 143 yn yr amser hwnnw - mae'n un o blith pedwar heddlu yn unig le cododd y niferoedd.”

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir Susan McNicholas, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Sir Huw Williams gynnig gwelliant:

“Bod y Cyngor hwn yn llongyfarch Heddlu Dyfed Powys a'i ymrwymiad i gynyddu nifer y swyddogion ar draws ardal yr heddlu.

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod yr ymrwymiad ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru i ariannu 500 o PCSOs ychwanegol ar draws Gymru."

Pleidleisiodd y Cyngor ar y gwelliant gan ei dderbyn o 20 pleidlais i 6 gyda 3 yn ymatal. Yna pleidleisiodd y Cyngor ar y prif gynnig ac o 24 pleidlais i 0 gyda 4 yn ymatal

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor hwn yn llongyfarch Heddlu Dyfed Powys a'i ymrwymiad i gynyddu nifer y swyddogion ar draws ardal yr heddlu.**

**Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod yr ymrwymiad ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru i ariannu 500 o PCSOs ychwanegol ar draws Gymru.**

<b>17. CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD</b>
--

**Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adfywio a Chynllunio gan y Cynghorydd Sir Kathryn Silk**

**A all yr Aelod Cabinet esbonio ba gyswllt y mae Aelodau'r Cabinet neu swyddogion y Cyngor wedi'u cael gyda Llywodraeth Cymru am y Gweinidog sy'n gyfrifol am y cyhoeddiad ynglŷn â'r seilwaith digidol ar 30ain Ionawr y bydd Powys yn cael ei thargedu i gael cysylltiad band eang cyflym iawn i gartrefi a busnesau nad ydynt wedi'u cysylltu dan gynllun blaenorol Openreach; faint o eiddo y disgwylir iddynt elwa o'r contract newydd arfaethedig ym Mhowys; pa ardaloedd o Bowys sy'n cael blaenoriaeth; sut penderfynir ar y blaenoriaethau hyn; pryd mae disgwyl i'r gwaith ddechrau a chael ei gwblhau; ac a all pob anheddiad ym Mhowys yn awr ddisgwyl cysylltiad â band eang cyflym iawn?**

**Ymateb**

Mae Tîm Adfywio'r Cyngor yn dal i weithio gyda Thîm Seilwaith TGCh Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyflwyno Band Eang Cyflym iawn yng Ngham 2 o'i rhaglen. Rydym yn deall bod y gyllideb ar gyfer y rhaglen hon ar draws Gymru, dros y cyfnod 2018-23 yn oddeutu £80M gyda Chanolbarth Cymru yn un o'r ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer y buddsoddiad hwn.

Un o raglenni Llywodraeth Cymru yw'r cynllun Band Eang Cyflym iawn ac mae Cyngor Sir Powys yn un o'r ymgynghoreion yn y broses hon.

Ym mis Gorffennaf 2017 fel rhan o'r ymgynghoriad ar Gam 2 tynnodd Cyngor Sir Powys sylw at yr hyn y teimlai yr oeddent yn ardaloedd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yng ngham nesaf y rhaglen. Mae contractau'r ail gam (2018-23) wedi mynd allan i dendr a disgwylir y bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru ar y rhain yn hysbys inni o gwmpas mis Ebrill 2018.

O'r hyn rydyn ni'n ddeall, bydd y lleoliadau cyflenwi yn cael eu dewis drwy'r broses dendro ei hun.

Mae gofyn i'r cyflenwyr nodi beth ac ymhle maent yn gallu cyflenwi yn y ceisiadau a gyflwynant.

Ar ôl cwblhau'r broses hon, byddwn wedyn yn deall faint o eiddo y bydd modd eu cysylltu yng Ngham 2.

Ar hyn o bryd, nid yw'r amserlen fanwl ar gyfer cyflenwi ar gael gan na chytunwyd arni eto gyda'r cyflenwyr llwyddiannus.

Gan fod llawer o'r rhwydwaith ffibr craidd eisoes wedi'i osod, rhagwelir y bydd ail gam y cyflenwi yn cynnwys nifer uwch o atebion band eang amgen megis systemau Wi-Fi cymunedol a thechnolegau eraill.

Cafodd prosiect peilot Wi-Fi llwyddiannus ei gwblhau yn ddiweddar yng nghymuned Crai, ym Mannau Brycheiniog gyda chefnogaeth gan y Tîm Adfywio gan ddarparu cysylltiadau 30Mb sefydlog i 75 o eiddo.

<https://www.growinpowys.com/crai-project-uk> .

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Silk oedd holi pa rannau o Bowys a oedd yn cael eu blaenoriaethu a sut byddai aelodau'n cael eu hysbysu. Yn absenoldeb y Deilydd Portffolio dros Adfywio a Chynllunio, byddai'r Arweinydd yn sicrhau y byddai ymateb yn cael ei ddarparu.

**Cynghorydd Sir D E Davies (Cadeirydd)**